CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom ddydd Mawrth, 2 Chwefror 2021 am 10.00am.

YN BRESENNOL

Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych
Cynghorwyr Ellie Chard (Cadeirydd), Tony Flynn, Emrys Wynne a Rachel Flynn

Yn cynrychioli enwadau crefyddol
Jennie Downes a Collette Owen

Yn cynrychioli cymdeithasau'r athrawon
Dim cynrychiolwyr yn bresennol

Roedd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies yn bresennol fel arsyllwr.

HEFYD YN BRESENNOL

Ymgynghorydd Addysg Grefyddol (PL) a Gweinyddwyr y Pwyllgor (SJ a SLW)

PWYNTIAU I'W NODI

(i) Yn sgil y cyfyngiadau presennol ar deithio a'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol oherwydd pandemig y coronafeirws, cynhaliwyd y cyfarfod o bell trwy gyfrwng fideo gynadledda ac nid oedd yn agored i'r cyhoedd.

(ii) Yn absenoldeb cynrychiolydd athrawon ni chafodd gofynion cworwm y Cyngor eu diwallu. Cytunodd yr Aelodau i barhau â'r cyfarfod ar y sail y byddai angen i unrhyw benderfyniadau gael eu cadarnhau'n ffurfiol yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor â chworwm. Derbyniwyd argymhellion yr adroddiad fel yr oeddent a chytunwyd arnynt drwy gonsensws heb unrhyw bleidlais ffurfiol.

MYFYRDOD DISTAW

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig o funudau o fyfyrdod tawel.

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mr. Dominic Oakes, Y Parch. B H Jones a/ac Cheryl Williams

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dywedodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol wrth yr aelodau os oeddynt yn lywodraethwyr mewn ysgol oedd yn cael ei thrafod yn fanwl, roedd rhaid iddynt ddatgan cysylltiad ar y pwynt hwnnw.

3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2020 (wedi'u dosbarthu yn flaenorol).

PENDERFYNWYD *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2020 fel cofnod cywir.*

5 GOHIRIO HOLIADUR CYSAG SIR DDINBYCH

Dywedodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol wrth yr aelodau mai data cyfyngedig roedd CYSAG wedi'i dderbyn o adroddiad Estyn. Roedd trafodaethau wedi cael eu cynnal er mwyn asesu sut y gallai CYSAG dderbyn gwybodaeth gan ysgolion am feysydd da o Addysg Grefyddol neu feysydd o welliant. Penderfynwyd y byddai holiadur yn cael ei anfon i ysgolion er mwyn canfod pa gefnogaeth roedd ysgolion ei angen, i hyrwyddo arferion da a chadw mewn cysylltiad gydag ysgolion yn y Sir. Cafwyd eglurhad bod ysgolion yn boddi gyda rheoliadau newydd i gadw disgyblion a staff yn ddiogel yn sgil pandemig Covid-19. Teimlwyd ei fod braidd yn ansensitif i fod yn llunio holiadur ar hyn o bryd.
Gofynnodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol am gefnogaeth gan aelodau i ohirio anfon yr holiadur at yr ysgolion tan yn hwyrach yn y flwyddyn, pan fyddai ysgolion mewn sefyllfa well gobeithio.

Penderfynwyd *bod aelodau yn cytuno i ohirio anfon yr holiadur i ysgolion tan dymor yr haf ar y cynharaf.*

6 DIWEDDARIADAU YNGHYLCH LLYWODRAETH CYMRU A'R CWRICWLWM NEWYDD

Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau yn dilyn y ddau ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ystod yr haf a'r gwanwyn. Clywodd yr aelodau mai bwriad yr ymgynghoriad cyntaf oedd trafod cael gwared ar hawl rhieni i dynnu eu plant o addysg rhyw ac addysg grefyddol. Roedd yr ail yn ymwneud â gofyniad i ysgolion crefyddol ddarparu maes llafur addysg grefyddol y cytunir arno ochr yn ochr â chwricwlwm sy'n seiliedig ar yr Eglwys.
Cafwyd cadarnhad bod y Bil Cwricwlwm ac Asesu yn symud drwy'r Senedd ar hyn o bryd. Cafwyd cadarnhad bod rhagor o wybodaeth ar gael ar-lein.
Pwysleisiwyd bod y Bil yn ail gam ei ddatblygiad.

Rhoddodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol y newyddion diweddaraf i aelodau am y fframwaith cefnogi ar gyfer Addysg Grefyddol. Cafwyd cadarnhad bod Llywodraeth Cymru wedi cynnwys Addysg Grefyddol ym maes dyniaethau'r cwricwlwm. Pwysleisiwyd bod Addysg Grefyddol dal yn statudol ac roedd dal angen i CYSAG gyfrannu at y maes llafur newydd, byddai Llywodraeth Cymru yn darparu'r fframwaith cefnogi ar gyfer Addysg Grefyddol. Y gobaith yw y bod y canllaw'n cael ei gyhoeddi er mwyn i CYSAG gytuno ac er mwyn i ysgolion fabwysiadu'r fframwaith

cefnogi. Nid oedd y gyfraith y tu ôl i'r cwricwlwm ar gyfer Addysg Grefyddol wedi newid. Pwysleisiwyd bod CCYSAGC yn parhau i siarad gyda Llywodraeth Cymru er mwyn pwysleisio pwysigrwydd y canllaw a'r angen i'w dderbyn cyn gynted ag roedd ar gael.

Cafodd yr aelodau wybod am ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ddarparu dysgu proffesiynol o ganlyniad i ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Roedd CCYSAGC wedi cyfarfod â Llywodraeth Cymru i drafod yr hyfforddiant a fyddai'n cael ei gynnig. Efallai y byddai pump arbenigwr ar draws Cymru i gefnogi athrawon yn cael ei gynnig. Byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei gyflwyno i aelodau pan fyddai ar gael.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau eglurodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol y canlynol:

- Roedd ethnigrwydd a diwylliant yn cael ei gynnwys mewn Addysg Grefyddol mewn ysgolion. Roedd yn darparu dealltwriaeth o ystod o gredoau oedd yn effeithio ar y ffordd y mae pobl yn ymddwyn ac yn rhyngweithio gydag eraill.
- Mae Addysg Grefyddol mewn ysgolion yn cynnwys amrywiaeth eang o ffydd y mae disgyblion yn eu hastudio. Cristnogaeth ydyw'n bennaf, ond mae'n cynnwys eraill. Teimlwyd bod dealltwriaeth dda o wahanol fathau o ffydd yn bwysig ar gyfer addysg plant.
- Mae cyfansoddiad CYSAG yn nodi y dylai addysg mewn ysgolion gynrychioli'r credoau yn yr ardal.
- Mae hanes Addysg Grefyddol yn y DU yn gysylltiedig â Christnogaeth a'r Eglwys. Trafododd yr aelodau gyfrifoldebau'r ffydd a theuluoedd i addysgu pobl ifanc am gredoau'r ffydd. Roedd newidiadau yn y gymdeithas wedi digwydd ac roedd Addysg Grefyddol mewn ysgolion angen addasu a newid gyda barn budd-ddeiliaid sy'n ymwneud ag Addysg Grefyddol mewn ysgolion.
- Trafododd yr aelodau yr angen i fod â dealltwriaeth o ffydd a chredoau eraill yn ein cymdeithas.

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau ac arsylwyr am y drafodaeth a sgwrs dda am y diweddariad i'r cwricwlwm newydd yng Nghymru.

PENDERFYNWYD *bod aelodau'n nodi'r diweddariad ar lafar.*

7 ADDYSG GREFYDDOL A DYSGU CYFUNOL A DYSGU O BELL

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol rai o'r adnoddau Addysg Grefyddol sydd ar gael i ysgolion eu defnyddio. Ar y sgrin, dangoswyd i'r aelodau'r wybodaeth sydd ar gael ar wefan GwE. Fe eglurwyd bod y rhan helaeth o'r adnoddau ar gael i ysgolion ac athrawon eu defnyddio. Pwysleisiwyd bod yr wybodaeth a'r adnoddau ar gael yn y Gymraeg a Saesneg.
Roedd y wefan a'r wybodaeth yn cynnig ystod o weithgareddau i ddisgyblion eu cwblhau. Roedd y wefan yn rhyngweithiol iawn ac yn gadael i ddefnyddwyr lawrlwytho'r tasgau a'u haddasu fel bo angen. Dangoswyd ystod o weithgareddau ac unedau gwahanol sydd ar gael i'r aelodau.
Fe soniwyd hefyd bod gwybodaeth am weithgaredd 'maes awyr ffydd a llwybr cred' wedi cael ei gynnwys am ddim i ysgolion yn y newyddlen a roddwyd i staff addysgu. Roedd yn gyfle i athrawon/ysgolion ddylunio ystafell aml-ffydd a chred mewn maes awyr.

Clywodd yr aelodau bod yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint wedi rhoi trwydded i ysgolion gopïo 5% o lyfr testun i'w roi i ddisgyblion. Mae'r Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint wedi creu porth i alluogi athrawon i gael gafael ar wybodaeth llyfr testun ar-lein. Roedd yn ddefnyddiol iawn i athrawon ar hyn o bryd.

Roedd yr aelodau'n gefnogol iawn i'r adnoddau sydd ar gael i ysgolion ac athrawon er mwyn cynorthwyo â dysgu o bell. Roedd aelodau'n falch o weld ehangiad gwefan GwE a'r adnoddau sydd ar gael.

PENDERFYNWYD *bod aelodau'n nodi'r diweddariad llafar.*

8 CCYSAGC

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei bod hi wedi mynychu dechrau cyfarfod ar-lein diweddaf CCYSAGC a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2020.
Dywedodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol wrth yr aelodau nad oedd cofnodion y cyfarfod ar gael i aelodau eu trafod. Dywedodd wrth y pwyllgor y bu 3 phrif maes o drafodaeth.

- Y cwricwlwm newydd a safle Addysg Grefyddol ynddo;
- Y fframwaith cefnogi a
- Dysgu proffesiynol - roedd CCYSAGC eisiau cefnogi athrawon i ddysgu'r cwricwlwm newydd.

Fe gadarnhawyd bod dysgu cyfunol ac arholiadau wedi cael eu trafod hefyd ond eu bod yn cael eu newid yn rheolaidd ac mae Addysg Grefyddol yn cael ei ddyfarnu trwy asesiad athro ar hyn o bryd.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Ymgynghorydd Addysg Grefyddol am ragor o ddealltwriaeth a gwybodaeth ynglŷn â'r nifer o wasanaethau dyneiddiwr a gynhaliwyd yn amlosgfeydd Sir Ddinbych ers mis Ebrill diwethaf.
Gan ymateb i gwestiwn y Cadeirydd dywedodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol bod y Gymdeithas Dyneiddwyr wedi gofyn a fyddai modd iddynt fod ag aelod ar bwyllgorau CYSAG. Fe glywodd aelodau bod nifer o gyfansoddiau CYSAG wedi nodi bod rhaid i aelodaeth y pwyllgor gynrychioli unigolion yn yr ardal leol. Fe nodwyd y gallai fod yn anodd i gael niferoedd o enwadau Cristnogol gwahanol sydd yn y gymdeithas, yn sgil y dewisiadau sydd yn y cyfrifiad gan ei fod yn nodi Cristnogol/Anghristnogol a chrefyddau eraill. Nid oedd yna ddewis ar gyfer enwadau penodol o ffydd gwahanol. Roedd gwybodaeth leol gan Gynghorwyr wedi cynorthwyo i gasglu data i ddarparu cynrychiolaeth gyfansoddiadol ar CYSAG Sir Ddinbych. Fe soniwyd ei bod yn bosibl ei fod wedi newid gyda nifer cynyddol o ddisgyblion a theuluoedd yn honni nad oedd ganddynt ffydd.
Fe soniodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol am y dybiaeth nad oedd unigolyn oedd wedi nodi nad oedd ganddynt grefydd yn golygu nad oedd ganddynt gred mewn dwyfoldeb neu'r goruwchnaturiol, yn hytrach nid oeddynt yn uniaethu ag un o brif grefyddau'r byd. Pwysleisiwyd pa mor anodd oedd canfod niferoedd y credoau a ffordd o fyw pobl. Teimlwyd petai'r ffigur am niferoedd y gwasanaethau amlosgi dyneiddiwr yn hysbys fe allai ddangos faint o bobl oedd â chred Dyneiddiwr yn Sir Ddinbych.

Diolchodd yr aelodau i'r Ymgynghorydd Addysg Grefyddol am y farn o gasglu gwybodaeth am gred Dyneiddiwr. Gofynnodd aelodau fel CYSAG a fyddai gwybodaeth am gredoau a grwpiau eraill yn gorfod cael eu casglu er mwyn bod yn deg â phawb. Gofynnodd aelodau a fyddai modd cynnal arolwg yn Sir Ddinbych oedd yn cynnwys 'arall' gyda blwch testun er mwyn i breswylwyr allu nodi eu credoau'n glir. Teimlwyd bod crefyddau a chredoau eraill yn cael eu dilyn yn Sir Ddinbych.

Clywodd aelodau bod pwyllgorau CYSAG mewn awdurdodau cyfagos wedi cael trafodaethau tebyg hefyd. Dywedodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol y gellir anfon cwestiwn at Gynghorwyr lleol i gael gwybodaeth o'r gymuned yn cynnwys pa systemau cred y mae pobl yn eu dilyn, pa adeiladau maent yn eu defnyddio i ymgynnull, pa ystafelloedd cyfarfod sy'n cael eu defnyddio. Fe allai CYSAG ddefnyddio'r wybodaeth honno i ofyn am wybodaeth gan y Cyngor Llawn am ddarn o waith yn ymwneud â'r wybodaeth honno er mwyn edrych ar Gyfansoddiad ac aelodaeth CYSAG.

Fe awgrymodd y Cadeirydd a'r Ymgynghorydd Addysg Grefyddol mai'r peth gorau efallai fyddai anfon e-bost at bob Cynghorydd i ofyn pa grwpiau a ffydd oedd ym mhob ward. O'r wybodaeth honno, gellir ffurfio cyfeiriadur i ddangos y canfyddiadau. Byddai'r cyfeiriadur yn ddefnyddiol ar gyfer Sir Ddinbych a CYSAG.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n trafod gyda'r Ymgynghorydd Addysg Grefyddol i lunio e-bost i'w anfon at y Cynghorwyr i ofyn am ragor o wybodaeth. Byddai'r holiadur yn cael ei anfon at aelodau i gael adborth cyn ei anfon at y Cynghorwyr.

PENDERFYNWYD

- *bod aelodau yn nodi'r diweddariad ar lafar;*
- *a bod y Cadeirydd a'r Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yn trafod i lunio holiadur i'w anfon at bob Cynghorydd yn gofyn am wybodaeth ar ffydd a systemau cred ym mhob ward.*

9 DYDDIAD CYFARFOD NESAF SIR DDINBYCH

Cadarnhawyd cyfarfodydd dyddiadau CYSAG 2021 fel a ganlyn:

24 Mehefin (dydd Iau) a 20 Hydref (dydd Mercher).

Cadarnhawyd y bydd cyfarfod nesaf CCYSAGC ddydd Mawrth 13 Gorffennaf 2021.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.20am.